WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod** | IG-2015-003(W) |
| **Dyddiad** | 20 Ionawr, 2015 |
| **Tudalennau** | **1** o **2** |

Annwyl Cadeirydd

Diolch am eich llythyrau dyddiedig 15 Rhagfyr ac adroddiad y Pwyllgor a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd ar ein *Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon*, *Adroddiad Interim 2014-15* ac *Amcangyfrif ar gyfer 2015-16.*

Penodi Baker Tilly yn Archwilwyr Allanol Swyddfa Archwilio Cymru

Yng ngoleuni cymeradwyaeth y Pwyllgor, byddwn yn bwrw ymlaen â phenodi Baker Tilly fel ein Harchwilwyr Allanol. Gallaf gadarnhau y byddwn yn cytuno ar fetrics perfformiad fel rhan o'r contract. Bydd ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg hefyd yn goruchwylio perfformiad yr archwilwyr, yn enwedig o ran gwaith gwerth am arian a wneir yn y dyfodol.

Byddwn yn fwy na pharod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor yn ôl yr angen.

Cynllun Ffioedd 2015

Rydym yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor i gytuno ar y Cynllun a byddwn yn mynd ati i'w gyhoeddi a chytuno ar ffioedd â chyrff unigol a archwilir yn unol â'r cyfraddau cyhoeddedig. Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am gydnabod yr arbedion a'r effeithlonrwydd mewnol y mae'r Bwrdd wedi gofyn amdanynt fel nad effeithir ar y ffioedd.

Er mwyn egluro un ateb a roddais i'r Pwyllgor mewn perthynas â'r ymgynghoriad ynglŷn â'n graddfeydd ffioedd, ymgynghorwyd â phob corff a archwilir sy'n dod o dan y rheoliadau statudol mewn perthynas â graddfeydd ffioedd Llywodraeth Leol a graddfeydd ffioedd ar gyfer y Fenter Twyll Genedlaethol. O dan y ddeddfwriaeth nid yw'n ofynnol i ni ymgynghori y tu hwnt i hynny, ond wrth gwrs bu'r adborth cynhwysfawr drwy ein Harolwg o Randdeiliaid a gynhaliwyd yn gynharach yn ystod y flwyddyn yn fuddiol i ni, fel y crybwyllais wrth y Pwyllgor.

Byddwn yn cyflwyno cynigion ar gyfer model symlach o adennill costau archwilio cyhoeddus i'r Pwyllgor maes o law.

Amcangyfrif Atodol 2014-15


Rydym yn croesawu'n fawr iawn y ffaith bod y Pwyllgor yn fodlon ar ein Hadroddiad Interim ar gyfer 2014-15 a'n Hamcangyfrif ar gyfer 2015-16. Gallaf gadarnhau bod eich argymhellion yn cael eu hymgorffori yn ein prosesau cynllunio busnes arferol.

Wrth ddod gerbron eich Pwyllgor ar 6 Tachwedd, rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am brynu a gweithredu system TG archwilio newydd yn lle'r systemau a etifeddwyd sy'n achosi risgiau i barhad busnes erbyn hyn. Amcangyfrifir mai'r gost gyfalaf, i'w thalu'n llawn yn 2014-15, yw £216,000. Esboniwyd y byddai angen i ni drosglwyddo adnoddau refeniw i adnoddau cyfalaf er mwyn rhoi cyfrif am y buddsoddiad yn briodol.

Nododd y Pwyllgor fod angen cyllideb atodol er mwyn trosglwyddo'r arian yn y modd hwn a chroesawodd y ffaith y gallem dalu am y gwariant ychwanegol drwy ein hadnoddau presennol yn hytrach na gofyn am gynnydd cyllidebol. Mae'n bleser gennyf amgáu Memorandwm Esboniadol i'r Pwyllgor gytuno arno a gallaf gadarnhau iddo gael ei drafod â swyddogion Llywodraeth Cymru er mwyn bod yn gyson â llinell amser cyllideb atodol Llywodraeth Cymru. Rwyf wedi ysgrifennu at y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar wahân.

Fel bob amser, rydym yn awyddus i roi unrhyw wybodaeth sydd ei hangen ar eich Pwyllgor.

Yn gywir



**Isobel Garner**

**Cadeirydd, Swyddfa Archwilio Cymru**